





# Yr Holocost a Chymru

## Rhyddid

Crëwyd gan y Ganolfan Astudio Symudedd Pobl (CASP) ym Mhrfysgol Aberystwyth








Crëwyd mewn partneriaeth rhwng CASP a Chymdeithas Hanes Iddewig De Cymru (CHIDC) a'i ariannu gan Gymdeithas y Ffoaduriaid Iddewig (AJR)

Yr Holocost a Chymru

# Rhyddid

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar y modd y cafodd yr Holocost ei gyflawni gan y Natsïaid a'u cydweithredwyr, ac yn edrych hefyd ar y Cynghreiriaid yn rhyddhau gwersylloedd a getos y Natsïaid.

Mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth gefndir am systemau gwersylloedd a getos y Natsïaid a ble i ddarganfod mwy
- Map: Gofodau o erledigaeth a llofruddiaeth Natsïaidd
- Bywgraffiadau byr o William Richard Williams, Leslie Hardman a Manfred Gans
- Dolenni i glipiau sain o recordiadau hanes llafar o William Richard Williams a Leslie Hardman
- Detholiad o ddyddiadur rhyfel Manfred Gans, 1943
- Trawsgrifiadau o'r clipiau sain

Mae'r adnodd yn rhagdybio dealltwriaeth sylfaenol o'r Holocost. Efallai y byddwch am gyflwyno taflen waith Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (HET), 'Diffinio'r Holocost', cyn archwilio'r adnoddau hyn. Gweler hefyd Egwyddorion Cyffredinol HET ynglŷn ag Addysgu am yr Holocost.

# Gwybodaeth gefndir ar y system gwersyll Natsïaidd a Bergen-Belsen

O 1933, sefydlodd yr awdurdodau Almaenig amrywiol adnoddau cadw i ddal y rhai yr oeddent yn eu diffinio fel gwrthwynebwyr gwleidyddol, ideolegol, neu hiliol i'r gyfundrefn. Yn ystod y blynyddoedd cynharaf, sefydlwyd gwersylloedd crynhoi i gadw gwrthwynebwyr gwleidyddol i'r gyfundrefn, yn cynnwys Comiwnyddion, Sosialwyr, ac undebwyr llafur Almaenig, ac eraill o'r cylchoedd gwleidyddol y chwith a Rhyddfrydol. Roedd y gwersylloedd y tu allan i system gyfreithiol yr Almaen, sy'n golygu y gallai carcharorion gael eu cadw am gyfnod amhenodol.

Ymhen amser, yn ogystal â gwersylloedd crynhoi, ehangodd y system i gynnwys gwersylloedd llafur; gwersylloedd carcharorion rhyfel (POW); gwersylloedd trosglwyddo; a gwersylloedd a weithredodd fel canolfannau lladd, a ddisgrifiwyd fel gwersylloedd difodiant neu wersylloedd marwolaeth.

Hyd at 1943, gwersyll ar gyfer carcharorion rhyfel yn unig oedd Bergen-Belsen. Ym mis Ebrill 1943, cafodd rhan o Bergen-Belsen ei droi i fod yn wersyll preswyl cyntaf ar gyfer sifiliaid ac yn ddiweddarach, yn wersyll crynhoi. Yn ystod ei fodolaeth, roedd Bergen-Belsen yn wersyll crynhoi ar gyfer Iddewon; carcharorion rhyfel; carcharorion gwleidyddol; pobl o hil y Roma a Sinti; pobl nad oeddent yn cydymffurfio â normau cymdeithasol y Natsïaid, e.e., cardotwyr, alcoholiaid, y rhai oedd yn gaeth i gyffuriau, puteiniaid a heddychwyr (pobl oedd yn credu fod rhyfel yn anghyfiawn); pobl anabl; troseddwyr; Tystion Jehofa; a gwrywgydwyr.

Wrth i luoedd y Cynghreiriaid symud i mewn i'r Almaen ddiwedd 1944 a dechrau 1945, daeth Bergen-Belsen yn wersyll casglu ar

gyfer miloedd o garcharorion Iddewig a symudwyd o wersylloedd yn agos i'r llinell flaen. Llethwyd adnoddau prin y gwersyll gan ddyfodiad y carcharorion yma, lawer ohonynt wedi goresgyn cael eu gorfodi i adael ar droed.

Erbyn diwedd mis Gorffennaf 1944, roedd tua 7,300 o garcharorion eu caethiwo yng ngwersyll Bergen-Belsen. Erbyn dechrau mis Rhagfyr 1944, roedd y nifer yma wedi cynyddu i tua 15,000, ac ym mis Chwefror 1945, roedd nifer y carcharorion wedi cynyddu i 22,000. Wrth i garcharorion a symudwyd o'r dwyrain barhau i gyrraedd, chwyddodd poblogaeth y gwersyll i dros 60,000 erbyn 15 Ebrill 1945.

Erbyn dechrau 1945, byddai carcharorion weithiau'n mynd heb fwyd am ddyddiau; roedd dŵr ffres yn brin hefyd. Roedd glanweithdra'n eithriadol o annigonol, gydag ond ychydig o dai bach a thapiau dŵr ar gyfer y degau o filoedd o garcharorion. Arweiniodd gorboblogi, amodau glanweithdra gwael, a phrinder bwyd, dŵr, a chysgod i achosion o heintiau megis teiffws, twbercwlosis, twymyn teiffoid, a dysentri gan achosi nifer cynyddol o farwolaethau. Yn ystod misoedd cyntaf 1945, bu farw degau o filoedd o garcharorion. Un ohonynt oedd y ddyddiadurwraig Anne Frank.

Cafodd cyfanswm o tua 6 miliwn o Iddewon eu lladd yn ystod yr Holocost, yn ogystal â miliynau o garcharorion rhyfel Sofietaidd, Romani, Pwyliaid, pobl anabl, pobl hoyw a gwrthwynebwyr gwleidyddol Natsïaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am y system gwersyll Natsïaidd a Bergen-Belsen, gweler:

- https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/concentration-camp-system-in-depth

- https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/bergen-belsen
- https://www.het.org.uk/images/downloads/Guidance_notes/Final_Solution_ks4.pdf

## Gwybodaeth gefndir am ghettos Natsïaidd a Theresienstadt

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, gorfodwyd y boblogaeth Iddewig i getos gan awdurdodau'r Almaen. Ardaloedd caeedig oedd yn cadw Iddewon ar wahân oddi wrth weddill y boblogaeth oedd y getos fel arfer. Sefydlodd yr Almaenwyr o leiaf 1,143 o getos yn y tiriogaethau dwyreiniol oedd wedi eu meddiannu.

Dim ond am ychydig ddyddiau yr oedd rhai o'r getos mewn bodolaeth. Roedd eraill mewn bodolaeth am fisoedd neu flynyddoedd. Roedd yr Almaenwyr yn eu hystyried fel modd o reoli a gwahanu Iddewon tra bod arweinwyr y Natsïaid yn ystyried opsiynau i ddileu'r boblogaeth Iddewig yn barhaol. Roedd cynghorau Iddewig (Judenräte) a apwyntiwyd gan y Natsïaid yn gweinyddu bywyd bob dydd yn y getos.

Roedd ghetto Theresienstadt yng ngogledd-orllewin Tsiecoslofacia yn gweithredu fel gwersyll trosglwyddo ar gyfer Iddewon cyn i'r Almaenwyr eu symud i ganolfannau lladd, gwersylloedd crynhoi, a gwersylloedd llafur gorfodol. Disgwylid y byddai'r amodau gwael yno'n prysuro marwolaethau nifer o'r rhai a gludwyd yno nes iddynt allu cael eu halltudio.

Roedd geto Theresienstadt yn hynod am i'r Natsïaid ei ddefnyddio i guddio natur yr alltudio. Mewn propaganda

Natsïaidd, disgrifiwyd Theresienstadt yn sinigaidd fel 'tref sba' lle gallai Iddewon oedrannus 'ymddeol' yn ddiogel. Er gwaetha'r amodau byw ofnadwy a'r bygythiad cyson o alltudiaeth, roedd gan Theresienstadt fywyd diwylliannol hynod ddatblygedig. Byddai awduron, athrawon prifysgol, cerddorion, ac actorion yn cynnal darlithoedd, cyngherddau, a pherfformiadau theatr.

Pasiodd pymtheg mil o blant drwy Theresienstadt. Er y gwaharddiad i wneud hynny, byddent yn mynychu'r ysgol. Byddent yn peintio lluniau, ysgrifennu barddoniaeth, ac yn ceisio bod mor normal â phosibl dan yr amgylchiadau. Bu farw tua 90% o'r plant yma mewn canolfannau lladd.


Caniataodd yr Almaenwyr i'r Groes Goch Ryngwladol i ymweld ym mis Mehefin 1944. Twyll cymhleth oedd y cyfan: dwysau'r alltudio o'r geto wnaeth yr Almaenwyr yn fuan cyn yr ymweliad i leihau'r gorboblogi, a chafodd y geto ei hun ei 'harddu'. Plannwyd gerddi, peintiwyd y tai, ac atgyweiriwyd y barics. Cynhaliodd y Natsïaid ddigwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol ar gyfer yr ymwelwyr pwysig. Cyn gynted ag y daeth yr ymweliad i ben, ailddechreuodd yr Almaenwyr yr alltudio.

O'r tua 140,000 a drosglwyddwyd i Theresienstadt, mae'n weddol bendant i tua 90,000 ohonynt gael eu halltudio i'w marwolaeth. Bu farw tua 33,000 o bobl yn Theresienstadt ei hun.

I gael rhagor o wybodaeth am ghettos Natsïaidd a Theresienstadt, gweler:

- https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/ghettos
- https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/theresienstadt

# <u>Ffynhonnell hanesyddol 1: Map: Gofodau o erledigaeth a llofruddiaeth Natsïaidd</u>




Cymerwyd o bapur briffio ymchwil 'Spaces of Killing' Coleg Prifysgol Llundain (UCL) (tt 10-11)
Cafodd y map ei atgynhyrchu gyda chaniatâd Canolfan Addysg yr Holocost UCL ac ni ddylid ei atgynhyrchu ymhellach
Dolen: [https://holocausteducation.org.uk/wp-content/uploads/4.-SpacesOfKilling_updated-final.pdf](https://holocausteducation.org.uk/wp-content/uploads/4.-SpacesOfKilling_updated-final.pdf)

## Ffynhonnell hanesyddol 2: Bywgraffiad byr o William Richard Williams

Ganwyd William Richard Williams yn 1920 a mynychodd Ysgol y Gadeirlan yng Nghaerdydd. Wedi cael prentisiaeth gyda'r Austin Motor Company, ymunodd â Chorfflu Gwasanaeth Brenhinol y Fyddin yn 1939 a chafodd ei gomisiynu fel swyddog yn 1941. Cymerodd ran yng nglaniadau Normandi ym mis Mehefin 1944 ac ef oedd un o'r milwyr Prydeinig cyntaf i gyrraedd i ryddhau gwersyll crynhoi Bergen-Belsen yng ngogledd Yr Almaen ym mis Ebrill 1945. Cafodd ei hebrwng i mewn i'r gwersyll am y tro cyntaf gan Schutzstaffel (SS) swyddog (yr SS sef y sefydliad parafilwrol oedd yn gyfrifol am weinyddu Gwersylloedd Crynhoi'r Natsïaid a'r gwersylloedd lladd) cyn iddynt gael eu trosglwyddo i reolaeth y Cynghreiriaid rai dyddiau'n ddiweddarach.

I gael rhagor o wybodaeth am yr SS, gweler:

- https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/ss

## Ffynhonnell hanesyddol 3: Clip Sain: William Richard Williams yn mynd i wersyll crynhoi Bergen-Belsen

## Ffynhonnell hanesyddol 4: Bywgraffiad byr o Leslie Hardman

Ganwyd y Parchedig Leslie Hardman yng Nglyn-nedd, ger Castell Nedd, yn 1913, i deulu Iddewig. Symudodd i Fanceinion yn blentyn, gan hyfforddi i fod yn rabi, a chael swydd fel gweinidog yn Leeds yn 1936. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, daeth yn gaplan yn y fyddin a'i anfon i Wlad Belg a'r Iseldiroedd. Wedi i'w uned

groesi i mewn i'r Almaen, fe oedd y caplan Iddewig cyntaf o Fyddin Prydain i fynd i mewn i wersyll crynhoi Bergen-Belsen. Goruchwyliodd gladdedigaethau 20,000 o anffodusion y gwersyll. Gwasanaethodd yn ddiweddarach fel rabi yn Synagog Unedig Hendon yn Llundain.

## Ffynhonnell hanesyddol 5: Clip Sain: Leslie Hardman yn mynd i wersyll crynhoi Bergen-Belsen

## Ffynhonnell hanesyddol 6: Bywgraffiad byr o Manfred Gans

Ffoadur Iddewig o Borken yn Yr Almaen a ffodd i Brydain yn un ar bymtheg oed yn 1938 oedd Manfred Gans. Yn ystod y rhyfel, ymunodd â Byddin Prydain a throsglwyddo i Grŵp Rhif 3 o Gorfflu (Rhyng-Gynghreiriaid) Rhif 10, (a oedd yn cael ei adnabod hefyd fel X Troop), a hyfforddi yn Aberdyfi, Gwynedd. Dychwelodd gyda'i uned i Borken ym mis Ebrill 1945, lle y darganfu fod ei rieni wedi eu harestio a'u gyrru i Theresienstadt, geto Iddewig mewn rhan o wad Tsiec oedd wedi'i meddiannu gan yr Almaen. Gwnaeth gais i adael er mwyn ceisio dod o hyd iddynt, gan drosi drwy linellau'r Americanwyr, Sofietiaid a'r Almaenwyr. Erbyn iddo gyrraedd ddechrau mis Mai, roedd y gwersyll wedi'i ryddhau gan y Sofietiaid.

<u>Ffynhonnell hanesyddol 7: Detholiad o ddyddiadur rhyfel Manfred Gans, 1943</u>

THERESIENSTADT o'r diwedd. Sifiliaid yn dangos y ffordd i'r geto. Ro'n i'n amau y byddwn yn marw o gyffro yr eiliad honno ond rwy'n ddigon pwyllog nawr, dim ond yr ymdeimlad rhyfedd hwnnw yn ddwfn yn fy stumog fydda i'n ei gael cyn gwneud naid parasiwt.

[...]

Dyma ni'n gyrru'n araf drwy'r rhwystr. Rwy'n sefyll ar sedd flaen y jîp yn gwyro dros y sgrin. Rwy'n sylweddoli beth yw'r foment hon, Gallai fod yn olygfa yng Ngerddi Lordship, Llundain, ar brynhawn dydd Sadwrn. Mae pobl – Iddewon – miloedd ohonynt ym mhobman. Maen nhw'n edrych yn llwglyd, wedi eu gorweithio, ond wedi gwisgo'n eithaf da. Iddewon Gorllewin Ewrop, a phob wyneb yn edrych yn gyfarwydd. Maen nhw o bob oedran, ond mae bob llygad yn adlewyrchu heneidd-dra a blinder. Am olygfa druenus!! Alla i ddim gorfodi fy hun i wenu arnyn nhw. Mae pawb yn casglu o gwmpas. Gyrru ymlaen yn araf. Mae rhai'n rhy wan i symud o'r ffordd yn sydyn. Dyma sut y gyrron ni i mewn i'r trefi a oedd wedi eu rhyddhau yn Ffrainc, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd. Yr un oedd y torfeydd, ond am awyrgylch!

[...]

Mae llygaid pawb arnom ni, ond maen nhw wedi synnu gormod i yngan gair. Galla i ond edrych yn llym arnyn nhw. Stopio o faen y Swyddfa Gofrestru. Mae un ferch yn dal i weithio. Rwy'n mynnu cyfeiriad fy rhieni. Mae hi'n ateb yn Saesneg a ddysgodd fwy na thebyg yn ystod ei dyddiau gwag yn y gwersylloedd crynhoi. Mae'r ysbryd Iddewig yn anorchfygol. Mae'n cyffroi i gyd. "Maen

nhw yma o hyd wir, ond ydych chi’n lwcus? Bydd rhaid i fi ddod gyda chi fy hunan,” er ’mod i bron â marw o gyffro. Y tu allan mae fy ngyrrwr yn cael ei amgylchynu. Bron a allwn symud drwy’r torfeydd nawr. Ble mae’r holl bobl yma’n byw? Am orboblogi ofnadwy! Mae gwelyau a byrddau o bren amrwd i’w gweld dan y goleuni drwy rai o’r ffenestri. Mae gwelyau bync dwbl a thriphlyg ym mhobman. Stop! Dyma’r tŷ. Mae’r ferch yn holi. Mae fy rhieni’n bwyta swper ar y balconi. Rwy’n ei hanfon yn ei blaen, a mynd i mewn i’r coridor. Pobl ym mhobman! Dim preifatrwydd yma! Rwy’n dechrau cyffroi tipyn. Damia, rwy wedi neidio allan o awyrennau, wna i ddim gadael i hyn fy nigalonni! Mae hynny’n gwneud y tric. Gan edrych yn llym o hyd â ’mreichiau wedi eu croesi ar draws fy mynwes.

Amhosibl disgrifio’r munudau nesaf. Rwy’n cael fy hun yn sydyn yn eu breichiau. Mae’r ddau’n crio’n wyllt, gan swnio fel petawn nhw’n crio o anobaith. Rwy’n edrych ar fy nhad ac er ’mod i wedi paratoi fy hun am lawer mae’n rhaid i fi wasgu fy nannedd at ei gilydd rhag dangos fy syndod. Anodd iawn ei adnabod! Wedi llwgu a’i ddinistrio’n llwyr. Fy meddyliau cyson cyntaf wedi rhai munudau yw “Am sioe ofnadwy”. Y nesaf hen air o’r cyfnod gwylio gyda’r Corfflu “Paid dychryn!” Rwy’n eu harwain at y balconi a’u gorfodi i eistedd. Dydyn nhw ddim yn gallu yngan gair o hyd drwy eu dagrau. Daw rhai o’u ffrindiau, pobl hyfryd, i’w cysuro a’u tawelu. Nawr o’r diwedd rwy’n llwyddo i wenu. Mae pobl yn casglu’n sydyn yn y clos islaw’r balconi. Mae pawb yn gweiddi “Llongyfarchiadau” a “Mazel-tow” wrth fy rhieni. Nawr maen nhw’n cymeradwyo. Mae hynny’n rhoi hwb i fy rhieni. Mae dad wedi ymdawelu’n llwyr nawr - un edrychiad i’w lygaid yn fy argyhoeddi nad yw ei ysbryd wedi torri. Mae’n gymaint o ddelfrydydd realistig ag erioed.

Ffynhonnell: Dyddiadur rhyfel Manfred Gans, Amgueddfa Goffa'r Holocost yr Unol Daleithiau, Papurau teulu Gans 1900-2004 [swmp 1938-1950], Rhif Derbyn: 2012.478.3 (2004)

Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Aviva Gans Rosenberg

# Trawsgrifiadau

## Clip Sain: William Richard Williams yn mynd i wersyll crynhoi Bergen-Belsen

Dyma ni'n cyrraedd yno, a doedd dim arwyddion o unrhyw beth o gwbl, roed y lle ond yn…yn ardal, lôn fach yn arwain i mewn i goedwig. Ond hanner canllath i lawr yr agoriad bach hwnnw, roedd bocs gwyliwr yr Almaenwyr, y du a'r coch a'r streipen wen, gyda pholyn codi, a sowldiwr Hwngaraidd. Wel, dywedwyd wrthym yn ddiweddarach mai un o Hwngari ydoedd, milwr digon rhyfedd yr olwg, mewn…iwnifform dywod, pwti a reiffl ar ei gefn. Dyma fe'n codi'r polyn ac yn amneidio arnom i fynd drwodd.

[...]

Dyma ni'n mynd, fi a'r ddau SS oedd gyda fi, drwy'r glwyd i mewn i'r gwersyll go iawn a dyna rywbeth, golygfa na wnaf i ei hanghofio fyth. Rwy'n credu mai beth oedd yno gyntaf…oedd ond ardaloedd o weiren bigog, ffensys weiren bigog uchel, cabanau ar yr ochr chwith. Roedd bwndeli dros y prif ymgynullfan – oedd ond yn ardal o bridd sych heb borfa yn unman – a dim ond bwndeli, oedd yn edrych fel carpiau ond cyrff gwersyllwyr meirw oedden nhw mewn gwirionedd. Dywedwyd wrthym am gyfeirio at y gwersyllwyr fel PD – Pobl Ddadleoledig. Doedd gyda ni ddim gwybodaeth o bwy oedden nhw, o ble roedden nhw'n dod, eu cenedl, rhyw na'u crefydd. Ac wrth i ni fynd i mewn ymhellach, dyma ddrewdod yr holl le yn fy nharo, ynghyd â'r ffaith bod niwl llosgol yn gorchuddio'r gwersyll, a ffurfiwyd wrth i'r gwersyllwyr losgi eu palisau gwellt a'u…a'r lloriau pren, unrhyw beth allen nhw ei losgi, ac roedd y tawch hwnnw fel petai'n gwmwl dros y gwersyll cyfan. Roedd gwersyllwyr, neu PD, yn crogi ar wifrau, wedi disgyn wrth eu hymyl, mewn ffurfiau grotesg, ac roedd yn rhaid i chi, jyst gwau eich ffordd drwyddyn nhw. Roedd dau'n cerdded ac yn dod tuag atom, a dyma'r SS, oedd yn fy hebrwng, yn eu saethu.

[Clip Sain: Leslie Hardman yn mynd i wersyll crynhoi Bergen-Belsen]

Cyrhaeddais y clwydi, ar y dechrau roedd y milwyr yn gwrthod mynediad i mi, rwy'n credu am eu bod yn ofnus iawn, yn llawn nerfau. Beth bynnag, llwyddais i gael mynediad o'r diwedd…i'r clwydi, roedd merch ifanc yno…merch ifanc, menyw ifanc o bosibl. Sylwodd ar y Magen David ar fy iwnifform, felly gwelodd mai Iddew oeddwn i, wel roedd hi eisiau rhedeg ataf i a'nghofleidio. Roedd hi'n edrych mor atgas nes i mi, i mi gamu'n ôl, ac wrth iddi symud ymlaen, roedd hi…roedd hi'n debygol o syrthio, ond llwyddais i reoli fy hun a'i chadw, a'i chadw ar ei thraed. Ac yna, wrth i ni gerdded rhai llathenni wedyn, roedd tuag wyth neu ddeg o bobl yn gorwedd ar y llawr. Felly dyma fi'n dweud, 'Pam nad oes unrhyw gabanau?' – roedd rhai cabanau gerllaw – dywedodd, 'Maen nhw wedi marw! Felly byddwn ni i gyd yn farw os na ddaw mwy o help…yn sydyn.' Felly, wedyn…symudais, ond yna dyma fi'n cyfarfod â thair neu bedair o fenywod allai siarad â mi, ac yna dyma fi'n dechrau dysgu am y pethau echrydus, arswydus wnaeth y Natsïaid.